



# Polisi datgelu gwybodaeth

## CYFLWYNIAD

Nid yw'n ofyniad cyfreithiol i WCVA gadw at Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) sy'n berthnasol i gyrff cyhoeddus ac eithrio adegau pan fyddwn yn darparu gwasanaethau i awdurdodau cyhoeddus.

Rydym wedi llunio polisi datgelu gwybodaeth o'n gwirfodd i egluro i'n haelodau, ein rhanddeiliaid, mudiadau â diddordeb ac aelodau o'r cyhoedd pa wybodaeth yr ydym yn ei chadw amdanynt a beth sydd ar gael iddynt.

Rydym wedi ymrwmo i fod yn eglur wrth wneud penderfyniadau yn ogystal â gweithredu'r penderfyniadau hynny, drwy sicrhau bod cymaint o wybodaeth a dogfennau â phosib ar gael i'n rhanddeiliaid. I'r perwyl hwn mae'r polisi wedi'i selio ar ragdybiaeth o ddatgelu – y bydd gwybodaeth yn cael ei datgelu pan na fydd rheswm anorchfygol dros beidio â datgelu.

Nid yw gwybodaeth yn ddefnyddiol i randdeiliaid ond os gallant gael ati a gwneud synnwyr ohoni. Rydym felly wedi ymrwmo i ddarparu gwybodaeth berthnasol a dogfennau mewn modd clir a hawdd ei ddeall drwy ddefnyddio'r wefan fel y brif ffrwd o wybodaeth ar gyfer ein rhanddeiliaid. Pan fo'n bosibl, bydd WCVA yn ateb ceisiadau am wybodaeth benodol yn y dull mwyaf priodol i randdeiliad neu randdeiliaid oresgyn y rhwystrau sy'n eu hwynebu i gael mynediad at wybodaeth.

## BETH FYDDEM YN EI WNEUD YN GYHOEDDUS

Mae WCVA wedi ymrwmo i sicrhau bod y **wybodaeth sefydliadol gyffredinol** a'r dogfennau canlynol ar gael i'r cyhoedd:

- Manylion o genhadaeth, gweledigaeth, gwerthoedd, a nodau WCVA
- Statws cyfreithiol
- Cyfeiriadau swyddfeydd cofrestredig
- Ar ran prosiectau WCVA, manylion amcanion y prosiectau, prif weithgareddau a ddefnyddir i wireddu'r amcanion hynny, a'r staff sy'n gyfrifol am y prosiect

- Ar gyfer cynlluniau grant, manylion y weithdrefn ymgeisio, canllawiau ar gyfer ymgeiswyr, meini prawf cymhwysedd, meini prawf asesu, telerau ac amodau'r grant, a chymeradwyaeth grantiau
- Rhestr o holl staff yn nodi eu swydd â'u manylion cyswllt (cyfeiriadau e-bost a rhifau ffôn)
- Polisiâu a gweithdrefnau'r corff yn cynnwys datgelu gwybodaeth, gweithdrefn gwyno, polisiâu cyfleoedd cyfartal ac amrywiaeth, rhybudd cydymffurfio â'r Iaith Gymraeg, iechyd a diogelwch
- Datganiadau ariannol blynyddol yn nodi incwm a gwariant
- Adroddiadau blynyddol
- Cynlluniau strategol

Rydym wedi ymrwmo i wneud y wybodaeth ganlynol sy'n berthnasol i'n **strwythurau llywodraethu ac i'n proses gwneud penderfyniadau** yn gyhoeddus:

- Enwau aelodau Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ynghyd â manylion cyswllt y Cadeirydd
- Cofrestr fanwl wedi'i harwyddo, a all gael ei gweld ar gais, o fuddiannau'r ymddiriedolwyr a'r staff sydd, neu a all gael eu gweld, yn gwrthdaro â rhai WCVA
- Rhestr o unrhyw is-bwyllgorau gyda manylion o'u pwrpas a'u cyfansoddiad

## YMATEB I GEISIADAU AM WYBODAETH

Mae WCVA yn cydnabod y gall rhai bylchau fodoli yn y wybodaeth y mae'n ei darparu i'r cyhoedd. Mae angen i randdeiliaid felly fedru gwneud ceisiadau am wybodaeth benodol, ac mae angen i weithdrefnau fodoli er mwyn hwyluso hyn.

Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod na all yr holl wybodaeth fod yn gyhoeddus. Mae nifer cyfyngedig o sefyllfaoedd ble na fyddwn yn gwneud gwybodaeth yn gyhoeddus oherwydd rhesymau anorchfygol dros beidio â datgelu, yn cynnwys:

- Os yw datgelu gwybodaeth yn mynd yn groes i gyfrinachedd trydydd parti
- Os yw datgelu gwybodaeth yn tanseilio diogelwch unrhyw unigolyn, yn bradychu ei hawl ef neu hi, neu'n torri ar ei lonyddwch ef neu hi
- Os yw datgelu gwybodaeth yn torri ar gyfrinachedd masnachol
- Os yw datgelu gwybodaeth yn tanseilio cyfrinachedd dan contract
- Os yw datgelu gwybodaeth yn gallu rhoi aelod o staff neu bartner o WCVA mewn perygl
- Os yw datgelu gwybodaeth cyn dyddiad penodol yn gallu peryglu llwyddiant, effeithiolrwydd a/neu effeithio ar weithgaredd (e.e. digwyddiad, lansio adroddiad, cyflwyno cynnig am gyllid.)
- Os bwriedir cyhoeddi'r wybodaeth neu ei wneud ar gael i'r cyhoedd mewn rhyw ffordd yn y dyfodol
- Os byddai datgelu'r wybodaeth yn wirioneddol danseilio gallu WCVA i fynd â'r maen i'r wal neu i gynnal perthnasoedd gweithio llwyddiannus, neu fedru achosi difrod diangen i'r mudiad.

Bydd WCVA yn ymdrechu i fod yn eglur a darparu gwybodaeth fel y bydd ar gael i bawb, ac eto gwneir hyn wrth gadw at gyfyngiadau ar adnoddau ariannol a dynol. Bydd angen felly i'r gost o ymateb i geisiadau penodol am wybodaeth gael ei hasesu o fewn y cyfyngiadau hyn fesul achos.

Rhaid gwneud pob cais am wybodaeth yn ysgrifenedig (e-bost neu lythyr) a'i anfon at y Rheolwr Risg, Caffael a Llywodraethu, sef yr aelod o staff sy'n gyfrifol am y polisi hwn, naill ai:

- Drwy'r post i WCVA, Tŷ Baltig, Sgŵar Mount Stuart, Bae Caerdydd, Caerdydd CF10 5FH, neu
- Drwy ebostio [help@wcva.org.uk](mailto:help@wcva.org.uk)

Yn arferol bydd rhywun yn ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith o pan wnaed y cais cyntaf a bydd yn cael ei ddarparu naill ai'n ysgrifenedig neu drwy e-bost fel sy'n briodol. Os caiff y cais ei wrthod, bydd yr ymateb yn nodi'n amlwg ar ba sail mae'r cais wedi cael ei wrthod. Mae gohebiaeth yn cael ei groesawu yn Gymraeg a Saesneg.

Bydd person sy'n gwneud cais am wybodaeth ac sydd yna'n anhapus gyda'r ymateb y mae wedi'i dderbyn yn gallu apelio drwy ail-gyflwyno eu cais i'r Prif Weithredwr, a fydd yn edrych ar y wybodaeth eto yn unol â'r polisi. Bydd ymateb yn cael ei anfon o fewn pythefnos i'r Prif Weithredwr dderbyn y cais. Bydd y penderfyniad hwn yn derfynol.

## **LLYWODRAETHU'R POLISI**

Bydd y polisi hwn yn cael ei oruchwylio gan Bwyllgor Archwilio a Risg WCVA. Cyfrifoldeb dyddiol y Rheolwr Risg, Caffael a Llywodraethu yw gweithredu'r polisi sy'n cynnwys:

- Sicrhau bod dogfennau a gwybodaeth berthnasol ar gael yn gyhoeddus o fewn terfyn amser a gytunwyd
- Sicrhau bod dogfennau a gwybodaeth berthnasol ar gael mewn modd hawdd ei gael
- Bod yn bwynt cyswllt cychwynol ar gyfer unrhyw geisiadau am wybodaeth gan randdeiliaid
- Gwerthuso a diweddarau'r polisi yn rheolaidd

Bydd enwau a manylion cyswllt Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r aelod o staff sy'n gyfrifol am y polisi hwn ar gael yn gyhoeddus.

## **GWEITHREDU'R POLISI**

I sicrhau bod gweithdrefnau datgelu gwybodaeth yn cael eu gweithredu'n effeithiol, ac i sicrhau bod diwylliant o dryloywder yn gwbl ganolog, mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Prif Weithredwr wedi cymeradwyo'r cynllun hwn. Mae'r trefniadau gweithredu yn cynnwys, ond ddim wedi'u cyfyngu i'r canlynol:

- Bydd y polisi hwn ar gael yn gyhoeddus a'i ddsbarthu drwy wefan a dogfennau eraill WCVA
- Bydd y ddogfen hon yn dod yn rhan o gyflwyniad a hyfforddiant staff
- Bydd gweithrediad effeithiol o'r polisi hwn yn dod yn rhan o dasgau y cytunwyd arnynt a gwerthusiad aelodau o staff sydd â chyfrifoldeb am y polisi
- Bydd WCVA yn casglu sylwadau ac adborth am y polisi hwn ac yn ymrwmo i ymateb i'r hyn a godir
- Bydd gwerthusiad cyfnodol o'r polisi hwn yn cael ei wneud yn seiliedig ar sylwadau mewnol ac allanol, yn ogystal ag ar brofiadau o geisiadau a gafwyd ac atebion a ddarparwyd.

## **ADOLYGU**

**Mawrth 2019** (Dyddiad adolygu: Mawrth 2021)

WCVA – Prif Swyddfa  
Tŷ Baltig  
Sgwâr Mount Stuart  
Bae Caerdydd  
Caerdydd CF10 5FH

**Tel: 0300 111 0124**

**Email: [help@wcva.cymru](mailto:help@wcva.cymru)**

**[www.wcva.cymru](http://www.wcva.cymru)**

Elusen Gofrestredig 218093 / Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 425299 / Wedi ei gofrestru  
yng Nghymru